



E-GYLCHLYTHYR Haf 2019



Diweddariad TYR

Croeso i'n cylchlythyr ar gyfer Haf 2019. Mawr obeithiwn fod ein cylchlythyr yn ffordd ddefnyddiol i chi o gael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau rhanbarthol, y broses o ddarparu prosiectau'r Undeb Ewropeaidd, arferion gorau a chyfleoedd cyllid.

Rydyn ni bob amser yn agored i dderbyn adborth ar y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu, boed y rhwydweithiau rhanbarthol, gweithdai, digwyddiadau gwybodaeth, cylchlythyrau, y wefan ac ati a dyma'r cyfle delfrydol i chi ddweud eich dweud.

Mae WFO wedi penodi OB3 Research i gynnal gwerthusiad o'r Timau Ymgysylltu Rhanbarthol.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, maen nhw'n awyddus i gasglu adborth gan y rhai sydd wedi cydweithio â Thimau Ymgysylltu Rhanbarthol y De-ddwyrain neu wedi defnyddio ein gwasanaethau, gan gynnwys y cylchlythyr hwn. Mae OB3 Research yn gofyn yn garedig i chi gwblhau'r [arolwg](#) byr a chyfrinachol hwn, a fydd yn ein helpu hefyd i gynllunio ein gweithgareddau yn ôl ein hanghenion yn y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at gael canlyniadau'r arolwg, diolch ymlaen llaw am eich cymorth.

Lisa, Amy, Natalie a Nicola

Yn y rhifyn hwn

Diweddariad TYR

Tudalen 1

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 2

Themâu Trawsbynciol

Tudalen 2

Perfformiad Rhanbarthol

Tudalen 3

Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Tudalen 3

Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol

Tudalen 4

Arolwg Aeddfedrwydd Digidol

Tudalennau 5 a 6

Astudiaeth Achos Banc Datblygu Cymru

Tudalen 6

Cynllun Graddedigion PRC

Tudalen 7

Cymru'n Gweithio

Tudalennau 7 ac 8

Cymru'n Gweithio: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Tudalennau 8 a 9

Brexit a'n Tir

Tudalen 9

Tasglu'r Cymoedd

Yn ddiweddar mae Tasglu'r Cymoedd wedi darparu digwyddiadau ymgysylltu amrywiol sy'n helpu i ddarparu cyngor a chymorth i economi sylfaenol Cymoedd y De.



Ar 13 Mehefin, roedd Lee Waters AC, Cadeirydd Tasglu'r Cymoedd a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, yn bresennol mewn digwyddiad gyda Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) o bob cwr o Gymru. Roedd y digwyddiad yn gyfle i dynnu sylw at y cyfleoedd pwysig sydd ar gael i economi sylfaenol Cymru, yn benodol Cronfa Her yr Economi Sylfaenol a agorodd yn ffurfiol ar 15 Mai. Bydd y gronfa gwerth £3 miliwn yn cefnogi prosiectau arbrofol arloesol er mwyn helpu i lywio a datblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol. £1.5 miliwn o'r cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau yn ardal Tasglu'r Cymoedd. Roedd y digwyddiad yn gyfle i leisio'r math o gymorth y maen nhw o'r farn sydd ei angen ar gyfer economi sylfaenol lwyddiannus yn ogystal â'r ffordd y gellir goresgyn rhwystrau posibl.

Yn ogystal â digwyddiad BGC, mae Cronfa Her yr Economi Sylfaenol wedi ennyn

diddordeb ymhlith detholiad o brosiectau arbrofol ac arloesol o bob cwr o'r rhanbarth. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfarfodydd un i un gyda chroestoriad o randdeiliaid cyhoeddus, trydydd sector a phreifat er mwyn clywed am yr heriau a'r cymorth sydd ar gael y gellid ei ategu gan y Cyllid.

Fe wnaeth y Tasglu hefyd dreialu cymhorthfa fusnes ar Stryd Fawr Bargoed, a oedd yn cynnig gofod cydweithredol anffurfiol i berchnogion busnesau lleol ac entrepreneuriaid i ddod ynghyd a dysgu am y gwasanaethau cefnogol sydd ar gael. Roedd y gymhorthfa yn cynnwys marchnad o sefydliadau a allai helpu busnesau lleol gyda strategaethau cefnogol i'w helpu i fodloni eu hanghenion busnes. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydweithio'n agos â Hefin David AC i drefnu'r digwyddiad hwn a bydd yn cysylltu ag Aelodau Cynulliad eraill ardal y Cymoedd i ganfod a oes diddordeb cynnal digwyddiadau tebyg mewn cymunedau eraill yn y cymoedd yn ystod hydref 2019.

Bydd y Dirprwy Weinidog yn cyflwyno datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Gorffennaf. Bydd y Datganiad yn cynnwys gwybodaeth am ei flaenoriaethau fel Cadeirydd y Tasglu a chyhoeddiadau ynglŷn â'r ffordd y bydd yn bwrw ymlaen â nhw. Bydd yn ymhelaethu ar y blaenoriaethau hyn ar 18 Gorffennaf pan fydd yn siarad yn nigwyddiad Gwybodaeth Rhwydwaith CGE y DD yn The Future Inn, Bae Caerdydd.

Themâu Trawsbynciol

Mae WEFO wedi datblygu rhywfaint o ganllawiau ar Themâu Trawsbynciol ar gyfer Blaenoriaeth 5 Echel 5 newydd Cronfa

Gymdeithasol Ewrop: Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio Rhanbarthol, sydd wedi'i lanlwytho i'w Gwefan. Mae dogfennau'r canllawiau ar gael [yma](#).

Perfformiad Rhanbarthol

Dyma'r prif ffigurau diweddaraf ar gyfer perfformiad gweithrediadau a gyllidir gan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn Rhanbarth y De-ddwyrain. Mae'r data ar gael yn fanylach ar [wefan WEFQ](#).

| Cronfa | Dangosydd | Ffigurau ar gyfer Rhanbarth y De-ddwyrain |
|--------|--|---|
| ERDF | Mentrau sydd wedi cael cymorth | 2,623 |
| | Mentrau sydd wedi'u creu | 686 |
| | Swyddi sydd wedi'u creu | 5,081 |
| ESF | Cyfranogwyr sydd wedi cael cymorth | 82,173 |
| | Cyfranogwyr sydd wedi cael cymorth i fynd i gyflogaeth | 7,295 |
| | Cyfranogwyr sydd wedi ennill cymwysterau | 33,958 |
| | Cyfranogwyr mewn addysg/hyfforddiant | 4,288 |

Dyfodol Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru i greu dulliau newydd o fuddsoddi rhanbarthol yn lle Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE ar ôl Brexit. Mae'r broses o gyd-gynhyrchu yn cynnwys dulliau ymgysylltu amrywiol, gan gynnwys sefydlu Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, gyda Huw Irranca-Davies AC yn cadeirio, er mwyn trafod materion strategol a syniadau newydd am gyfeiriad polisi a dulliau gweithredu, ac i roi cyngor i Weinidogion Cymru. Mae'r aelodau'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn cynnwys busnesau, llywodraeth leol, sefydliadau academiaidd, y trydydd sector, ac amrywiaeth o gyrff cyhoeddus. Mae'r Grŵp Llywio wedi cyfarfod ddwywaith (18 Chwefror a 2 Mai) ers ei sefydlu'n gynharach eleni. Mae manylion aelodaeth, y papurau terfynol a'r cofnodion wedi'u cyhoeddi [yma](#).

Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno hefyd i sefydlu pedwar is-grŵp arbenigol hefyd (Fframwaith Cenedlaethol; Ymchwil, Monitro a Gwerthuso; Gweithredu; a Gweithio Rhyngwladol / Trawsffiniol) er mwyn llywio'r ffordd o feddwl a meddwl am syniadau am faterion penodol. Bydd y grwpiau hyn yn

cynnwys arbenigwyr mewnol ac allanol perthnasol o sectorau gwahanol, a bydd yn cael ei sefydlu am 18 mis ar y cychwyn wrth i ni geisio rhoi fframwaith buddsoddi rhanbarthol newydd ar waith yn gynnar yn 2021. Mae manylion yr is-grwpiau hyn, gan gynnwys sut i wneud cais i fod yn aelod, wedi'u cyhoeddi [yma](#).



Bu Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n trafod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin. Roedd cefnogaeth amlwg i safbwynt Llywodraeth Cymru na ddylai Cymru fod yn waeth ei byd yn ariannol o ganlyniad i Brexit - fel yr addawyd yn ystod ymgyrch y refferendwm yn 2016 - a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gadw annibyniaeth wrth ddatblygu a darparu'r trefniadau ar gyfer olynwyr. Darllenwch ddatganiad agoriadol a datganiad cloi Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid, ynghyd a chofnod llawn o'r trafodion [yma](#).

Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru, cynllun Blaenoriaeth 2 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a gaiff ei reoli a'i ddarparu gan Raglen Gydweithredol Cymru, newydd gyhoeddi ei adroddiad mapio diweddaraf. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru - Cyfrifiad 2018 yw'r adroddiad mwyaf pendant o weithgarwch busnes yng Nghymru. Mae'n dilyn prosesau tebyg a gynhaliwyd yn 2016 a 2014 gyda'r nod o ddarparu amlinelliad cyfredol o gyflwr y sector, gan gynnwys maint a chyfansoddiad y sector a'i gyfraniad i economi Cymru a'r ffordd y mae wedi newid yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Y prif bennawd yw bod y **sector**

busnes cymdeithasol yng Nghymru wedi tyfu 34% mewn tair blynedd, a'i fod bellach yn werth £3.18 biliwn i economi Cymru. Gallwch lawrlwytho copi o'r crynodeb gweithredol [yma](#).

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi cyhoeddi ffeithlun i dynnu sylw at lwyddiannau datblygu cynaliadwy y cyllid sydd ar gael ar wefan WEFO yn yr [adran ar ganllawiau](#) ar themâu trawsbynciol.

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu cymorth dwys un i un i fusnesau sydd ag uchelgais i dyfu gyda chynnig busnes dichonadwy. Cynhelir eu cynhadledd flynyddoedd ar 25 Medi yn Venue Cymru. Archebwch eich tocynnau [yma](#) i ddysgu sut gall busnesau cymdeithasol dderbyn cymorth i dyfu.

Social Business in Wales

Providing business support across Wales to social enterprises and employee owned businesses with growth potential

Using an Eco Code to encourage good sustainable development practice

Enabling flexible working and increased awareness of equality in the workplace

Created over 400 jobs in some of the most challenged communities in Wales

Supporting existing staff through expansion and change

Supporting businesses to develop their sustainable, equality & HR practices

Helping organisations to save money through being green and reducing waste

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Dim ond ar gael yn English ar hyn o bryd.

Arolwg Aeddfedrwydd Digidol

Ffitrwydd digidol yn taclo ansicrwydd economaidd busnesau Cymru

Gan fod ansicrwydd economaidd yn golygu bod hyblygrwydd yn bwysicach nag erioed, gall bod yn ffit yn ddigidol eich helpu i gryfhau eich busnes ar gyfer y dyfodol. Felly, nid yw'n syndod efallai fod mwy o fusnesau bach a chanolig o Gymru'n troi at dechnoleg er er mwyn cynnal a thyfu eu busnesau wrth i'r cwestiynau am Brexit barhau.



Mae'r ffaith bod cwmnïau technoleg yn croesawu'r datblygiadau technolegol hyn a'r ffordd y mae'n eu gwneud yn fwy gwydn yn dod yn fwyfwy amlwg os ydych yn dilyn [Arolwg Aeddfedrwydd Digidol](#) Uned Ymchwil Economi Cymru Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ers tair blynedd bellach ac mae'n ystyried yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ar draws tirlun digidol Cymru o flwyddyn i flwyddyn, ac mae Prifysgol Caerdydd newydd gyhoeddi canfyddiadau 2018.

Mae'r adroddiad yn dangos sut mae'r byd digidol yn helpu perchnogion busnes a staff drwy symleiddio adnoddau fel y gall cwmnïau ganolbwyntio ar dwf. Ac mae'r canlyniadau'n fwyfwy cadarnhaol: mae busnesau Cymru mewn gwell sefyllfa i logi pobl, ac mae dwywaith yn fwy o fusnesau bach a chanolig yn adrodd lefelau cyflogaeth uwch yn 2018 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae mwy na hanner y busnesau'n sy'n defnyddio band eang cyflym iawn wedi gweld cynnydd penodol yn eu helw.

Pa mor ffit yw Cymru yn ddigidol?

Mae mwy o fusnesau bach a chanolig o Gymru nag erioed yn defnyddio adnoddau digidol i gynnal a thyfu eu busnes, gan fod cwmnïau o bob sector yn gweld tystiolaeth

gynyddol bod symud ar-lein yn fwy manteisiol.

Mae ffitrwydd digidol yng Nghymru yn tarddu yn y Gogledd a'r De-ddwyrain ac yn gwneud ei ffordd tuag at y Canolbarth a'r Gorllewin, lle mae bron i hanner y busnesau bellach yn cyflogi arbenigwyr mewnol i'w helpu gyda materion digidol. Mae'r cyrhaeddiad hwn yn mynd y tu hwnt i ranbarthau ac i mewn i sectorau, lle mae yna gynnydd cyffredinol yn y busnesau bach a chanolig sy'n defnyddio adnoddau ar-lein i reoli rhannau penodol o'u busnes. Er enghraifft, mae [Allen & Partners](#) practis milfeddygol yn Sir Gaerfyrddin, eisoes wedi arbed amser sylweddol i aelodau staff drwy osod system rheoli practis sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer milfeddygon.



Erbyn hyn mae sectorau traddodiadol yng Nghymru yn croesawu'r byd digidol er mwyn rheoli eu busnes yn well, a busnesau bach a chanolig yn y sector adeiladu sydd wedi mabwysiadu adnoddau digidol i'r graddau mwyaf yn 2018.

Mae cwmnïau adeiladu yng Nghymru wedi cynyddu eu defnydd o adnoddau digidol yn sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda nifer y busnesau sy'n defnyddio gwefannau, y cyfryngau cymdeithasol a systemau arbenigol (fel meddalwedd cyfrifo a rheoli prosiectau) oll ar gynnydd. Erbyn hyn mae cwmnïau adeiladu hefyd wedi canfod sut i ddefnyddio adnoddau digidol i gynyddu gwerthiant, ac roedd dros eu hanner yn gwerthu ar-lein y llynedd, 64% yn fwy nag yn 2017.

Mae pedwar o bob pump o fusnesau bach a chanolig o Gymru yn cydnabod pwysigrwydd adnoddau digidol wrth fodloni gofynion cwsmeriaid, ac mae un o bob pump eisoes... *Parhad ar y dudalen 6*

Parhad o'r dudalen 5 yn gweld hwb yn eu cynhyrchiant, diolch i systemau Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM).

Mae systemau CRM yn rhoi'r gallu i fusnesau drawsnewid 'diddordeb posibl' yn fusnes cyson drwy gylich gwerthiant a reolir. Drwy olrhain cwsmeriaid, gall cwmnïau nodi pwy i'w targedu a'u helpu i dyfu eu busnes. Mae 20% o fusnesau bach a chanolig eisoes yn gwneud


hyn, sy'n golygu bod yna gyfle sylweddol i achub y blaen ar gystadleuwyr, drwy droi cysylltiadau cwsmeriaid yn gysylltiadau digidol.

Mae rhagor o gymorth ar gyfer busnesau bach a chanolig ar gael gan [Cyflymu Cymru i Fusnesau](#), y gwasanaeth cymorth digidol rhad ac am ddim.

Cwmni Cymorth TG o Gaerdydd yn Ehangu Diolch i Gefnogaeth Gan Banc Datblygu Cymru

Mae b2b IT Services wedi'i gaffael yn dilyn buddsoddiad gan Banc Datblygu Cymru.

O ganlyniad i'r caffael, mae [b2b IT](#), sy'n darparu cymorth TG, atebion i'r cwmwl, parhad busnes a gwasanaethau seibrddiogelwch, wedi ychwanegu swyddi technegol newydd ac wedi symud i safle newydd yng Nghanolfan Cyfryngau S4C, Caerdydd.



Meddai Luke Hodge, y Cyfarwyddwr adeg ei sefydlu, 'Mae ein twf hyd yma wedi bod o ganlyniad uniongyrchol i allu'r cwmni i ddeall pob cleient ac yn ei dro eu gofynion TG. Ein blaenoriaeth bob amser yw darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol.'

Mae John Hurst, cyfarwyddwr TG b2b, yn tynnu sylw at natur caffael y busnes gan nodi "Erbyn hyn rydyn ni mewn sefyllfa lle mae gennym uwch dîm arwain cryf a phartneriaethau pwysig fel y gallwn gaffael i raddau mwy. Mae symud i Ganolfan Cyfryngau S4C yn golygu bod gennym ofod

swyddfa modern a chyfleusterau i ehangu."

Meddai Joanna Thomas, Swyddog Gweithredol Buddsoddi, Banc Datblygu Cymru: "Mae b2b IT Services yn fusnes uchel ei barch yn y gofod cymorth TG sydd â sylfaen gref ac amrywiol o gleientiaid. Mae'r banc datblygu'n bodoli'n benodol er mwyn helpu timau rheoli medrus ac uchelgeisiol fel Luke a John. Roeddem yn falch o wneud y buddsoddiad hwn er mwyn helpu'r busnes hwn, gyda hyn yn ei dro yn cyflymu eu twf. Rwy'n dymuno'n dda iddyn nhw yn eu cartref newydd."

Drwy symud, mae b2b erbyn hyn mewn lleoliad allweddol i gyrraedd cysylltiadau trafndiaeth a'r M4.

Ychwanega John, "Drwy symud, byddwn yn gallu parhau i ddenu a meithrin gweithwyr proffesiynol rhagorol ym maes TG yn ogystal â chanolbwyntio ar y busnes rydyn ni'n ei ddarparu yn y De a'r Gorllewin."

Meddai Rhidian Dafydd, Cyfarwyddwr Prosiectau S4C, "Rydyn ni wrth ein boddau bod b2b IT Services wedi ymuno â ni yn un o'n swyddfeydd newydd yng Nghanolfan Cyfryngau S4C, Caerdydd. Mae lleoliad amlwg y Ganolfan yn denu busnesau amrywiol fel b2b IT, ac yn creu mwy o gyfleoedd twf yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Pob llwyddiant i'r tîm yn b2b IT."

Daeth y cyllid gan Gronfa Fusnes Cymru, a ariennir yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, drwy Lywodraeth Cymru. Cafodd ei greu'n benodol i gefnogi busnesau gyda llai na 250 o weithwyr cyflogedig yng Nghymru a'r rhai sy'n barod i symud yma.

Cynllun Graddedigion PRC



Lansiodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC) ei chynllun newydd ar gyfer graddedigion ym mis Ebrill i greu mwy o gyfleoedd i raddedigion gyda busnesau lleol. Nod y cynllun yw gwella cynhyrchiant, arloesedd a thwf economaidd ymysg busnesau'r De-ddwyrain a hyrwyddo'r rhanbarth fel cyrchfan ar gyfer graddedigion dawnus.

Dyrannwyd £175,000 ar gyfer rhaglen beilot o'r cynllun i bara blwyddyn ac a fydd yn darparu cymorth wedi'i dargedu i fusnesau i helpu i greu 50 o interniaethau yn y lle cyntaf i raddedigion yn 2019/2020. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau hyn sy'n rhad ac AM DDIM:

- Cyngor ar y cyfraniad y gall graddedigion ei gynnig i fusnesau (sgiliau cyffredinol a phenodol)
- Gwasanaethau paru er mwyn cysylltu busnesau â graddedigion
- Helpu i greu a hysbysebu swyddi gwag i raddedigion
- Sgrinio ffurflenni cais

- Cynnal canolfannau asesu
- Llundio rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld

Caiff y cynllun ei farchnata i fyfyrwyr a graddedigion ledled y rhanbarth mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn cynllun cydlynol i raddedigion a dilyn cymhwyster wedi'i gyllido'n llawn yn ffordd dda o ddenu graddedigion rhagorol i fusnesau sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Meddai'r Cyngorydd Debbie Wilcox, Arweindydd Cyngor Dinas Casnewydd ac Aelod y Cabinet ar Sgiliau PRC:

“Fel rhanbarth, mae angen i ni wneud yn well er mwyn ein graddedigion. I gynyddu cynhyrchiant, mae angen i ni ddangos i raddedigion yng Nghymru sydd â chymwysterau ardderchog y cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw a thynnu sylw at y buddsoddiadau sy'n cael eu gwneud mewn sectorau celf arloesol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n partneriaid, sy'n cwmpasu'r byd academaidd a'r sector preifat i hyrwyddo a datblygu'r cynllun hwn, a gwella ffyniant y rhanbarth yr un pryd drwy wella sgiliau.”

Mae [gwefan](#) newydd y cynllun yn gweithio erbyn hyn ac mae'n darparu gwybodaeth am y ffordd y gall busnesau a graddedigion gymryd rhan ynghyd â chyfleoedd byw i raddedigion.

Cymru'n Gweithio: Gwasanaeth cyngori cyflogadwyedd newydd ar gyfer Cymru

Cafodd **Cymru'n Gweithio** ei lansio'n llwyddiannus gan Ken Skates AC, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 1 Mai yng Nghanolfan Gyrfa Cymru yng Nghaerdydd. Mae'n gweithredu fel 'brocer annibynnol' gan ddarparu cyngor ac

arweiniad yn ymwneud â chyflogaeth i unigolion a busnesau. Bydd y gwasanaeth hwn yn llwybr uniongyrchol i Raglen Job Support Wales (JSW) hefyd wedi iddo gael ei lansio ym mis Ebrill 2020. Bydd Cyngorwyr Gyrfaoedd Cymwys yn sicrhau bod unigolion yn cael eu cyfeirio i'r lle cywir ar yr adeg gywir yn ddibynnol ar eu hanghenion, gan ddarparu cyngor ac arweiniad proffesiynol a phersonol er mwyn nodi'r rhwystrau a'u goresgyn wrth symud tuag at gyflogaeth.

Parhad ar y dudalen 8

Parhad o'r dudalen 7

Mae Gyrfu Cymru a Llywodraeth Cymru wedi rhoi nifer o gyflwyniadau ar Cymru'n Gweithio a'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Cyflogadwyedd yn ein rhwydweithiau ac ar hyn o bryd mae yna nifer o ymgyrchoedd marchnata yn gwahodd pobl i

#newideichstori**Cymru'n Gweithio**

#newiddystori

Bydd proses gaffael yn cychwyn yn fuan ar gyfer rhaglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, sef **Job Support Wales**, gyda'r nod o ddyfarnu contractau cyn diwedd y flwyddyn, a disgwylir y bydd ar gael o fis Ebrill 2020.

Bydd y rhaglen Job Support Wales yn cael ei darparu'n rhanbarthol, gan gyflawni yn y tri maes canlynol.

Bydd adran Job Support Wales Adult (JSW-

A) yn helpu oedolion 18 oed a hŷn sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar i gael cyflogaeth. Bydd yn ymateb i anghenion unigolion er mwyn sicrhau bod oedolion yn cael y cymorth cywir i fynd i ymuno â'r byd gwaith.

Bydd adran Job Support Wales Youth Training (JSW-T) yn helpu pobl ifanc sydd ag awydd gweithio ond sydd angen gwell sgiliau cyflogadwyedd, ffocws mwy pendant o ran gyrfa a gwell sgiliau sy'n berthnasol i waith.

Bydd adran Job Support Wales Youth Engagement (JSW-YE) yn helpu pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed wrth iddynt ymuno â'r rhaglen wedi i asesiad ganfod bod sawl rhwystr yn eu hatal rhag cymryd rhan mewn modd cynaliadwy mewn addysg bellach, cyflogaeth (gan gynnwys Prentisiaethau): neu hyfforddiant. Bydd yr unigolion angen cymorth dwys, unigol ac arbenigol fel y gallant wneud cynnydd a bod yn barod am waith.

Cymru'n Gweithio: Ymgysylltu â Rhanddeiliaid



Yn dilyn lansiad Cymru'n Gweithio ar 1 Mai ([Cardiff TV](#)), mae staff Gyrfu Cymru wedi parhau i godi ymwybyddiaeth drwy'r ymgyrchoedd marchnata llwyddiannus, gan gynnwys; hysbysebu ar y teledu, y radio a'r cyfryngau cymdeithasol.

I ategu'r ymgyrchoedd a nodwyd yn flaenorol, cafodd cyfres o Cymru'n Gweithio digwyddiadau untro hyn yn gyfle i staff Cymru'n Gweithio godi ymwybyddiaeth y

cyhoedd o'r gwasanaeth a rhoi cyfle i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am yrfaeod. Roedd y digwyddiadau'n llwyddiannus iawn, a chafwyd 600 a mwy o sgysiaid difyr â chwsmeriaid yng Nghaerdydd, Caerffili, Cwmbrân, Casnewydd a Phontypridd.



Un o brif elfennau strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Cymru'n Gweithio yw sicrhau ein bod yn parhau i gael presenoldeb mewn digwyddiadau a arweinir gan rhanddeiliaid ac yn darparu gwasanaethau mewn safleoedd partneriaid a lleoliadau allgymorth cymunedol. Mae nifer o...

Parhad ar y dudalen 9

Parhad o'r dudalen 8

...swyddfeydd Gyrfya Cymru wedi gwahodd partneriaid lleol i ymweld â'r canolfannau er mwyn; cyfarfod y timau darparu, datblygu ymhellach y cysylltiadau gweithio da, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni cyfredol ac ymchwilio i



bosibiliadau cydweithredu. Mae'r rhyngweithio wedi bod yn defnyddiol iawn i bawb a bydd y digwyddiadau'n parhau i gael eu cynnal. Mae rhagor o wybodaeth am gydweithredu a chyfathrebu rhwng rhanddeiliaid a phartneriaid wedi'i chynnwys yn adroddiad rhanbarthol Cymru'n Gweithio ar Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, a ddosbarthwyd yn ddiweddar yn y gweithdy a gafodd ei hwyluso gan Dîm

Ymgysylltu Rhanbarthol y De-ddwyrain. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiadau chwarterol hyn gan Reolwyr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gael i'r partneriaid.

Er mwyn i staff Cymru'n Gweithio gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r holl gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd a allai fod o fudd i gwsmeriaid, rydym yn y broses o ddatblygu adnodd Canfod Cymorth Lleol. Bydd yr adnodd gwybodaeth fewnol hwn yn ategu'r Support Finder presennol, (sydd ar gael ar [safle Cymru'n Gweithio](#)) a bydd yn sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad at wybodaeth gywir a chyfredol a fydd yn annog pobl i gyfeirio ac atgyfeirio'n effeithiol at ffynonellau eraill o gymorth sydd ar gael i gwsmeriaid. Diolch i'r sefydliadau hynny sydd eisoes wedi darparu gwybodaeth am eu darpariaeth. I'r rheiny sydd heb wneud hynny eto, mae copi o'r ffurflen pro-fforma ar gyfer Cymorth Lleol ar gael gan [dîm Ymgysylltu Rhanbarthol y De -ddwyrain](#).

Michael O'Keefe
Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
Cymru'n Gweithio Rhanbarth y De

Ymgynghoriad Brexit a'n Tir

Fe wnaeth Lesley Griffiths AC, un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ddatganiad ddydd Mawrth 4 Mehefin am ganlyniadau'r ymgynghoriad, ac mae'r testun ar gael [yma](#) ynghyd â Chrynodeb o Ymatebion ac Ymateb Polisi Llywodraeth Cymru (a Phecyn Tystiolaeth) i'r broses ymgynghori. Maen nhw bellach yn cynnig Cynllun Cynaliadwyedd Ffermio Unigol gan ddarparu ffrwd incwm i ffermwyr yn gyfnewid am ddarparu canlyniadau rheoli tir yn gynaliadwy, fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac iechyd anifeiliaid.

Bydd Llywodraeth Cymru'n lansio ymgynghoriad ar eu cynigion diwygiedig, Brexit a'n Tir 2, yn gynnar ym mis Gorffennaf cyn Sioe Frenhinol Cymru.



Disgwylir i'r ail Ymgynghoriad hwn a'r broses o lunio'r cynigion ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol bara 16 wythnos (tan ddiwedd mis Hydref).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfennau'n ymwneud â Phrosiect Peryglon Daeryddol hefyd sy'n gysylltiedig â'r maes hwn. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael dryw'r dolenni canlynol:

- [Mapiau modelu tir](#)
- [Cyflwyniad](#)

